# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

## RHAN 3

TREFNIADAETH YSGOLION

## PENNOD 6

DARPARIAETHAU AMRYWIOL AC ATODOL

### 80 Hysbysiad gan gorff llywodraethu am derfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol

(1) Caiff corff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol derfynu'r ysgol drwy gyflwyno i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol hysbysiad sy'n rhoi dwy flynedd o rybudd o'i fwriad i wneud hynny.

(2) Mae'n ofynnol cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os aed i wariant ar fangre'r ysgol (ac eithrio mewn cysylltiad ag atgyweiriadau)—

- (a) gan Weinidogion Cymru, neu
- (b) gan unrhyw awdurdod lleol.

(3) Rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn cyflwyno hysbysiad o dan yr adran hon os byddai terfynu'r ysgol yn effeithio ar y cyfleusterau ar gyfer addysg lawnamser sy'n addas at anghenion personau dros oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed.

(4) Os yw'r corff llywodraethu, tra bo hysbysiad o dan yr adran hon mewn grym, yn hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn anabl neu'n anfodlon rhedeg yr ysgol hyd nes y bydd yr hysbysiad yn dirwyn i ben, mae'r awdurdod—

(a) yn cael rhedeg yr ysgol am y cyfan neu ran o gyfnod yr hysbysiad nad yw wedi dirwyn i ben fel petai'n ysgol gymunedol, a
(b) yn meddu ar hawl i ddefnyddio mangre'r ysgol yn ddi-dâl at y diben hwnnw.

(5) Tra bo'r ysgol yn cael ei rhedeg felly—
(a) rhaid i'r awdurdod gadw mangre'r ysgol mewn cyflwr da, a
(b) mae unrhyw fuddiant yn y fangre a ddelir at ddibenion yr ysgol i'w drin, at bob diben sy'n ymwneud â chyflwr y fangre, ei meddiannu neu ei defnyddio, neu wneud newidiadau iddi, fel buddiant sydd wedi ei freinio yn yr awdurdod.

(6) Er gwaethaf is-adran (5) caiff y corff llywodraethu ddefnyddio'r fangre, neu unrhyw ran ohoni, pan nad oes ei hangen at ddibenion yr ysgol i'r un graddau â phetai wedi parhau i redeg yr ysgol yn ystod cyfnod yr hysbysiad nad oedd wedi dirwyn i ben.

(7) Ni chaniateir i hysbysiad o dan is-adran (1) gael ei dynnu'n ôl heb gydsyniad yr awdurdod lleol.

(8) Os yw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol wedi ei therfynu o dan yr adran hon, mae dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal yr ysgol fel ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn peidio.

(9) Nid oes dim yn adran 43 yn gymwys mewn perthynas â therfynu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol o dan yr adran hon.

(10) Mae is-adran (11) yn gymwys—
(a) pan fo tir sydd wedi ei feddiannu gan yr ysgol yn cael ei ddal gan unrhyw ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol,
(b) pan fo'r ymddiriedolwyr (a hwythau â'r hawl i wneud hynny) yn bwriadu rhoi hysbysiad i gorff llywodraethu'r ysgol i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw, ac
(c) pan fyddai terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hwnnw yn arwain at y canlyniad nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r ysgol barhau i gael ei rhedeg ar ei safle presennol.

(11) Rhaid i'r hysbysiad y mae'r ymddiriedolwyr yn ei roi i'r corff llywodraethu i derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir gael ei roi o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw; ond os, yn ystod y ddeuddeng mis cyntaf o gyfnod yr hysbysiad hwnnw, yw'r corff llywodraethu yn rhoi hysbysiad o dan is-adran (1), nid yw hysbysiad yr ymddiriedolwyr yn cael yr effaith o derfynu meddiannaeth yr ysgol ar y tir hyd nes i hysbysiad y corff llywodraethu ddod i ben.

(12) Rhaid i gopi o hysbysiad yr ymddiriedolwyr hefyd gael ei roi i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol adeg rhoi'r hysbysiad i'r corff llywodraethu.

(13) Pan fo ymddiriedolwyr yn rhoi, yr un (neu i raddau helaeth yr un) pryd, hysbysiadau sy'n honni terfynu meddiannaeth ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol ar ddau neu fwy o ddarnau o dir sy'n cael eu dal gan yr ymddiriedolwyr at ddibenion yr ysgol, yna er mwyn penderfynu a yw is-adran (10)(c) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o'r darnau hynny o dir, caniateir i ystyriaeth gael ei rhoi i effaith gyfun terfynu meddiannaeth yr ysgol ar y ddau neu'r cyfan ohonynt.

(14) Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch a fyddai terfynu meddiannaeth ysgol ar unrhyw dir yn arwain at y canlyniad a grybwyllwyd yn is-adran (10)(c) (gan gynnwys cwestiwn ynghylch a yw is-adran (13) yn gymwys mewn unrhyw amgylchiadau penodol), mae i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.